Sioe
ABERYSTWYTH and Ceredigion County Show
a Sir Ceredigion

Vaughan Griffiths
96 Bryncastell
Bow Street
Ceredigion
SY24 5DF

☎ 01970 820 030

Cyfleoedd Hysbysebu 2016

Ysgrifennaf atoch fel Cadeirydd Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion i roi gwybod i chi am y buddion yr ydym yn eu cynnig i noddwyr eleni.

Cynhelir y Sioe eleni ar ddydd Sadwrn, 13 Mehefin 2015. Mae'r Sioe wedi hen ennill ei phlwyf fel sioe sirol swyddogol gan ddenu nifer fawr o gystadleuwyr ac ymwelwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt.

Mae sawl opsiwn noddi ar gael sy'n addas i unrhyw boced. Edrychwch ar yr opsiynau dros y dudalen. Yn ôl trefn y llynedd, bydd gan noddwyr pecynnau phlatinwm, aur ac arian y cyfle i hysbysebu AM DDIM yn rhaglen y Sioe. I drafod y mater ymhellach a heb rwymedigaeth, cysylltwch gyda'r Cydgysylltydd Noddi, Meretta Griffiths, 96 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DF, ☎ 01970 820030 ar ôl 6pm, e-bost sponsor.abershow@hotmail.co.uk neu cysylltwch yn uniongyrchol gyda minnau.

Diolch i chi ymlaen llaw am ddangos diddordeb yn Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion a gobeithiwn eich gweld chi ar y diwrnod, lle bydd croeso cynnes i chi ym mhafiliwn y noddwyr.

Yn gywir

Vaughan Griffiths

Vaughan Griffiths
Cadeirydd Pwyllgor y Sioe

Noder bod gan y Sioe 7 prif adran: Ceffylau, Gwartheg, Defaid, Dofednod, Cŵn, Hen Beiriannau a Chynnyrch. Gall noddwyr platinwm noddi un o'r prif adrannau, a gall noddwyr aur noddi bridiau unigol o fewn yr adrannau. Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod yr opsiynau hyn. Yn naturiol, rydym yn rhoi blaenoriaeth o ran prif adrannau a bridiau i'w noddi i'r busnesau ac unigolion a gefnogodd y Sioe yn 2015.

Cynigir pecynnau noddi yn y categorïau canlynol:

Pecyn Efydd: £75

- 2 Fathodyn Noddwr (mynediad AM DDIM i'r Sioe)
- Lluniaeth ysgafn ym mhafiliwn y noddwyr**
- Enw'r unigolyn / grŵp / cwmni ar hysbysfwrdd noddwyr swyddogol ar faes y Sioe ac yn rhaglen y Sioe.

Pecyn Arian: £100

- 2 Fathodyn Noddwr (mynediad AM DDIM i'r Sioe)
- 2 docyn mynediad ychwanegol
- Hysbyseb ½ tudalen du a gwyn AM DDIM yn rhaglen y Sioe. (tudalen lawn = A5) ** Edrychwch ar yr amodau isod*
- Lluniaeth ysgafn ym mhafiliwn y noddwyr**
- Lle i roi baner ar faes y Sioe
- Enw'r unigolyn / grŵp / cwmni ar hysbys fwrdd noddwyr swyddogol ar faes y Sioe ac yn rhaglen y Sioe.

Pecyn Aur: £150

- 2 Fathodyn Noddwr (mynediad AM DDIM i'r Sioe)
- 3 tocyn mynediad ychwanegol
- Hysbyseb tudalen lawn (A5) du a gwyn AM DDIM yn rhaglen y Sioe.* *Edrychwch ar yr amodau isod*
- Cyfle i hyrwyddo manylion eich cwmni a logo AM DDIM ar wefan y Sioe.
- Lluniaeth ysgafn ym mhafiliwn y noddwyr **
- Enw'r unigolyn / grŵp/ cwmni wedi'i briodoli i frid o'ch dewis yn rhaglen y Sioe, e.e. Merlod Ynysoedd y Shetland, Defaid Charolais, Gwartheg Duon Cymreig, gyda chyhoeddiadau cysylltiedig yn hyrwyddo'r unigolyn/grŵp/cwmni dros y system sain.
- Lle i roi baner ar faes y Sioe
- Enw'r unigolyn / grŵp / cwmni ar hysbysfwrdd noddwyr swyddogol ar faes y Sioe ac yn rhaglen y Sioe.

Pecyn Platinwm: £400

- 2 Fathodyn Noddwr (mynediad AM DDIM i'r Sioe)
- 5 tocyn mynediad ychwanegol
- Hysbyseb tudalen lawn (A5) du a gwyn AM DDIM yn rhaglen y Sioe.* *Edrychwch ar yr amodau isod*
- Cyfle i hyrwyddo manylion eich cwmni a logo AM DDIM ar wefan y Sioe
- Lluniaeth ysgafn ym mhafiliwn y noddwyr**
- Enw'r unigolyn / grŵp / cwmni wedi'i briodoli i brif adran o'ch dewis yn rhaglen y sioe, gyda chyhoeddiadau cysylltiedig yn hyrwyddo'r unigolyn/grŵp/cwmni dros y system sain.
- Lle i roi baner ar faes y Sioe
- Enw'r unigolyn / grŵp / cwmni ar hysbysfwrdd noddwyr swyddogol ar faes y Sioe ac yn rhaglen y Sioe.
- Bydd noddwyr adran platinwm yn noddi adran gyfan a phe dymunant yn cyflwyno sash i bencampwr yr adran gan fanteisio ar y cyfle i gael ffotograff cyhoeddusrwydd.

Rydym yn gobeithio y bydd y cynigion uchod yn eich diddori ac edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Cofiwch ddod i Babell y Noddwyr yn ystod y dydd i gael lluniaeth ysgafn** ac i fwynhau awyrgylch y Sioe.

Amodau

* Chi fydd â'r cyfrifoldeb o ddarparu copi electroneg o'r hysbyseb a hynny erbyn 22 Ebrill 2016. Gellir anfon yr hysbyseb at sponsor.abershow@hotmail.co.uk. Bydd angen eich hysbyseb mewn fformat JPEG neu PDF

** Yn golygu te, coffi, bisgedi a chacennau.

www.sioeaberystwyth.com/sponsor.html